“Nid oedd symud i gartref gofal yn benderfyniad hawdd i’r teulu ei wneud, ond mae lefel y gofal a’r sylw a gawsom wedi gwneud y sefyllfa’n llawer haws ymdopi â hi.”



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Eich anghenion beunyddiol | 6 |
| Wastad yma i chi | 10 |
| Croeso bob amser i ymwelwyr | 12 |
| Gofal i'r corff a'r meddwl | 14 |
| Cymryd rhan mewn pethau | 16 |
| Ehangu'r croeso | 18 |
| Eich cadw'n ddiogel | 20 |
| Iechyd a diogelwch bob dydd | 22 |
| Rydyn ni'n gwrando | 24 |
| Y wybodaeth ddiweddaraf o'ch Cartref | 26 |



# Eich anghenion beunyddiol



## O Gwmpas y Cartref

Gall gymryd amser i ddod yn gyfarwydd â'ch amgylchedd newydd ond gobeithio y bydd y cynllun lliwiau, y gwahanol ardaloedd a'r pethau difyr yn y Cartref yn eich helpu i gynefino'n fuan iawn.

Mae'r ystafelloedd bwyta, y ceginau, lolfeydd a'r ardaloedd hamddena yn y Cartref ynghyd â'r gerddi, a'r tir o gwmpas y Cartref, wedi eu dylunio a'u cynnal i chi eu mwynhau.  Rydyn ni'n annog ein preswylwyr i gyd i wneud defnydd llawn ohonynt ar unrhyw adeg.

## Bwyd a diod

Mae'r ystafelloedd bwyta cymunedol ar agor bob dydd gan gynnig dewis ac amrywiaeth o brydau bwyd. Mae rhannu bwrdd bwyd yn gyfle i chi gyfarfod a chymdeithasu â phreswylwyr eraill, i wneud ffrindiau a chlywed y newyddion diweddaraf yn y Cartref. Mae'r amseroedd bwyta a'r bwydlenni ar y wal o gwmpas yr ardaloedd bwyta.

Mae ein bwydlenni wedi eu dylunio a'u paratoi gan staff arlwyo arbenigol i gynnig diet blasus, iach a chytbwys i annog a chynnal eich lles.

Mae maeth da'n hollbwysig i bobl o bob oed. Mae diet cytbwys yn helpu i leihau problemau iechyd posib ac yn prysuro adferiad iechyd yn dilyn salwch.

Anogwn ein preswylwyr i gyfrannu syniadau ac awgrymiadau ar gyfer prydau bwyd; os oes unrhyw beth arbennig yr hoffech ei weld ar y fwydlen, cofiwch roi gwybod i ni.

“Mae fy nhad yn ymuno yn y gweithgareddau ac mae’r staff mor gyfeillgar a chroesawus. Does gen i ddim byd ond canmoliaeth i bawb am ail-fywiogi bywyd fy nhad.”

Mae’r cogyddion bob amser yn gwneud eu gorau i gwrdd ag unrhyw ofynion diet arbennig. Os oes gennych gwestiwn bwyd, neu anghenion diet arbennig, siaradwch â’r Prif Gogydd neu eich Gweithiwr Allweddol.

Mae te a choffi ar gael drwy’r dydd yn yr ardaloedd cymunedol. Mae lluniaeth hefyd ar gael yn y ceginau bach fel y gallwch chi a’ch gwesteion wneud diodydd a byrbrydau ar unrhyw adeg.

Drwy drefnu ymlaen llaw, gallwn hefyd ddarparu ar gyfer pen-blwyddi ac achlysuron arbennig; cofiwch drafod unrhyw geisiadau arbennig ymlaen llaw a gwnawn ein gorau glas i wneud eich digwyddiad yn un arbennig.

Neu gallwch gael byrbrydau yn eich ystafell ar unrhyw adeg a ddewiswch. Gallwn hefyd ddod â phrydau bwyd i’ch ystafell pan fo angen, er enghraifft pan fyddwch yn sâl.







> "Ni welais erioed y fath ymroddiad a charedigrwydd ag a gafodd fy ngŵr pan oedd yn aros yma, yn enwedig yn ystod wythnosau olaf ei fywyd."

### Golchi dillad a glanhau ystafelloedd

Darparwn wasanaethau golchi dillad a chadw tŷ gan helpu gyda golchi a smwddio dillad i wneud bywyd yn haws. Helpwn hefyd i gadw eich ystafell yn lân a thaclus.

I'n cynorthwyo, gofynnwn fod gan bob dilledyn label clir arno i osgoi dryswch. Dylech labelu eich dillad cyn gynted â phosib wrth symud i'r Cartref. Mae glanhau'n cael ei wneud ar adegau sy'n gyfleus i ni a chi.

### Siopa a phapurau newydd

Gallwch brynu mân eitemau personol fel pethau ymolchi, melysion a phapur ysgrifennu etc, o'r siop ar y safle. Gallwn hefyd drefnu tripiau siopa rheolaidd fel rhan o'r rhaglen weithgareddau.

Gallwch archebu papurau newydd drwy'r Tîm Gweinyddol neu o'r Dderbynfa, drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen papurau newydd sydd yng nghefn y pecyn hwn.

### Cyfathrebu personol

Yn ogystal â'r pwynt ffôn yn eich ystafell, gallwch greu cyfrif i dderbyn negeseuon yn y Dderbynfa. Mae mynediad i'r we hefyd ar gael yn yr ardal gymunedol, drwy gyfrifiadur at ddefnydd pawb, neu gallwch greu gwasanaeth band-eang yn eich ystafell.

Mae blwch i bostio llythyrau yn y Dderbynfa; holwch wrth ddesg y Dderbynfa i gael gwybod yr amseroedd casglu.

### Y Gronfa Preswylwyr

Mae gan y Cartref Gronfa Preswylwyr. Drwy'r Gronfa, bydd gennych eich cyfrif eich hun er mwyn gallu talu am fân eitemau fel trin gwallt a phapurau newydd yn syth i'r darparwr heb fod angen arian parod na mynd i'r banc. Os hoffech greu cyfrif preswylydd, dylech lenwi'r Ffurflen Cyfrif Costau Personol (sy'n amgaeedig) a'i rhoi i aelod o'r Tîm Gweinyddol. Cofiwch fod angen cael balans ariannol er mwyn gallu agor cyfrif.

# Wastad yma i chi

**Bydd gan eich Cartref dîm o staff mewn rolau penodedig sydd wedi cymhwyso a chael eu hyfforddi'n uchel. Maen nhw wrth law bob dydd a nos i ateb eich anghenion gofal neilltuol.**

Mae gan bob aelod o staff fathodyn enw i'w hadnabod yn hawdd. Rhestrir y staff allweddol a'u gwahanol rolau wrth y prif bwyntiau gwybodaeth yn y Cartref.

Byddwn yn dyrannu Gweithiwr Allweddol personol i chi a nhw fydd eich pwynt cyswllt cyntaf bob amser. Dylech godi unrhyw fater neu broblem gyda'ch Gweithiwr Allweddol yn y lle cyntaf, neu gydag aelod o'r Tîm Rheoli.

Cefnogir Gweithwyr Allweddol gan grŵp o weithwyr cyswllt yn y tîm gofal, sy'n cynnwys Gweithwyr Cymorth Gofal Lefel 1 neu 2. Mae gweithwyr cyswllt yn gyfrifol am ddarparu gofal, sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu dilyn yn effeithiol a bod unrhyw broblem neu bryder yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw priodol. Mae pob gweithiwr cyswllt yn gyfrifol am dri pherson sy'n byw yn y Cartref ar y mwyaf.





## Y Tîm Rheoli

Mae Rheolwr a Dirprwy-Reolwr y Cartref yn hynod brofiadol mewn darparu a goruchwylio gofal i bobl hŷn.

Mae'r Tîm Rheoli'n gyfrifol am redeg y Cartref yn gyffredinol. Maen nhw'n sicrhau bod y gofal gorau'n cael ei ddarparu a bod anghenion unigol ein preswylwyr yn cael eu cwrdd drwy reolaeth effeithiol o staff ac adnoddau.

## Y Tîm Gweinyddol

Mae'r Tîm Gweinyddol yn cynnwys y Rheolwr Cysylltiadau Busnes, staff y Dderbynfa a'r Gweinyddwyr Cynorthwyol, sy'n gyfrifol am holl systemau gweinyddol ac ariannol y Cartref.

Nhw yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymwelwyr a galwadau ffôn, ac maen nhw hefyd yn gyfrifol am brosesu'r system dderbyn a ffioedd preswylwyr.

## Staff gofal

Yn ogystal â'r Gweithwyr Allweddol, mae'r staff gofal yn cynnwys Nyrsys Cyffredinol Cofrestredig (mewn cartref nyrsio) neu Arweinwyr Shifftiau, gyda Gweithwyr Cymorth Gofal yn eu cynorthwyo. Gyda'i gilydd maen nhw'n sicrhau bod gofal rhagorol yn cael ei ddarparu o ddydd i ddydd i ateb eich anghenion gofal personol.

## Staff cynnal a chadw a domestig

Mae'r staff domestig a chynnal a chadw'n sicrhau bod eich ystafell, yr ardaloedd cymunedol a'r gerddi'n cael eu cynnal a'u cadw'n lân a thaclus.

# Croeso bob amser i ymwelwyr

Mae croeso i'ch ffrindiau, teulu a gwesteion ddod i'ch gweld yn y Cartref ar unrhyw adeg. Rhag ofn y bydd argyfwng, gofynnwn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr gwesteion wrth gyrraedd ac wrth adael.

## Prydau bwyd gyda'ch gilydd

Am dâl bychan, mae croeso i deulu a ffrindiau ymuno i fwynhau pryd o fwyd. Dylech roi rhybudd o 24 awr o leiaf i'r Derbynnydd fydd yn bwcio eich gwesteion gyda'r gegin.

## Gwesteion yn aros dros nos

Gall eich gwesteion hefyd aros dros nos drwy drefnu ymlaen llaw, gan ddibynnu a oes lle ar gael. Dylech drafod eich gofynion gyda'ch Gweithiwr Allweddol.

## Ardaloedd cymunedol

Anogwn ffrindiau a theulu ein preswylwyr i ddefnyddio'r holl ardaloedd cymunedol dan do a thu allan.


Os ydych yn trefnu achlysur arbennig neu eisiau cael twr o bobl at ei gilydd, byddwn yn hapus i neilltuo ardal neu ystafell breifat drwy roi rhybudd i ni ymlaen llaw. Gwnawn ein gorau hefyd i helpu gydag unrhyw drefniadau eraill fel arlwyo.

## Cymryd rhan mewn pethau

Gwahoddwn ffrindiau a theulu i amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol drwy'r flwyddyn. Efallai y byddai eich perthnasau hefyd am chwarae mwy o ran yn y Cartref drwy ein Cymdeithas Cyfeillion – tudalen 18.







"Weithiau mae pŵer geiriau'n disgrifio pa mor wych yw rhywbeth, ond mae realiti eich gofal di-hafal yn mynd yn bellach na hynny."

# Gofal i'r corff a'r meddwl

### Ymarferwyr iechyd cofrestredig

Mae ymarferwyr iechyd ar gael naill ai ar yr adegau ymweld arferol neu drwy drefniant. Gall y rhain gynnwys:

- Meddyg
- Ffisiotherapydd
- Ciropodydd
- Deintydd
- Optegydd
- Nyrs Ardal

Mae gwybodaeth am amseroedd a threfnu i weld Meddyg Teulu ar yr hysbysfwrdd neu drwy holi'r Dderbynfa neu eich Gweithiwr Allweddol. Gallwn hefyd drefnu ymarferwyr ar eich rhan lle bo angen. Gwneir y trefniadau hyn ar gais gennych.

Os ydych eisoes wedi cofrestru â Meddyg Teulu lleol, gallwch barhau i weld eich meddyg eich hun os dymunwch; siaradwch â'ch Gweithiwr Allweddol i wneud apwyntiad.

### Trin gwallt, ymdwtio a phampro

Mae ein salon trin gwallt a'n staff trin gwallt proffesiynol yn cwrdd ag anghenion trin gwallt ac ymdwtio merched a dynion. I gael gwybod am oriau'r salon ac i wneud apwyntiad, gofynnwch i'ch Gweithiwr Allweddol neu ewch i'r Pwynt Gwybodaeth yn y Dderbynfa.

Gall gwasanaethau tylino dwylo a thraed neu ymbincio ewinedd hefyd fod ar gael. Mae'r manylion i'w cael yn y salon, yn y rhaglen weithgareddau a'r Pwyntiau Gwybodaeth.

### Gofal ysbrydol

Bydd eich Cartref yn cynnig gwasanaethau crefyddol rheolaidd a gallai fod capel ei hun ganddo; rhoddir manylion am enwadau ac amseroedd gwasanaeth yn y rhaglen weithgareddau a'r Pwyntiau Gwybodaeth.

Gwnawn ein gorau i'ch cefnogi i ymarfer eich ffydd drwy hwyluso eich presenoldeb mewn cyfarfodydd y tu allan i'r Cartref neu drwy helpu i'ch rhoi mewn cysylltiad â grŵp lleol.




Rod

"Dw i'n hapus iawn yma, mae fel bod adra ond gan wybod bod unrhyw gymorth sydd ei angen arnaf ar gael i mi."





# Cymryd rhan mewn pethau

**Mae gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol yn rhan bwysig o fywyd yn y Cartref.**

Darparwn amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a hamdden i helpu i ysgogi, cymell a chynorthwyo preswylwyr i gael mynediad at wahanol sefyllfaoedd. Mae manylion yr holl weithgareddau a thripiau i ddod yn y Rhaglen Weithgareddau, sydd ar gael o'r Pwyntiau Gwybodaeth ac yn cael ei dosbarthu'n rheolaidd yn yr ardaloedd cymunedol.



### Cydlynydd gweithgareddau

Mae'r Cydlynydd Gweithgareddau'n unigolyn penodol ym mhob Cartref RMBI (weithiau mae dau Gydlynydd) ac yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau.

### Gweithgareddau grŵp

Trefnir amrywiaeth eang o weithgareddau gyda, ac ar gyfer, ein preswylwyr. Maen nhw'n cynnwys tripiau i lefydd difyr, digwyddiadau cymdeithasol, celf a chrefft, ffilmiau a sgyrsiau, adloniant, ymarfer corff ysgafn, coginio, gemâu a hel atgofion.

Rydyn ni'n eich annog i ymuno mewn gymaint o weithgareddau ag y mynnwch. Gallwch hefyd ofyn am weithgaredd, neu hyd yn oed drefnu un eich hun – er enghraifft gêm gardiau wythnosol.

### Llyfrgell a chyfarpar sain

Mae gan y Cartref lyfrgell gyda dewis da o lyfrau gan gynnwys llyfrau siarad. Gallai fod yno hefyd ystafell weithgareddau benodol. Bydd yno hefyd setiau teledu sgrîn-fawr a chyfleusterau i wylio ffilmiau a chwarae cerddoriaeth yn yr ardaloedd cymunedol.

### Diddordebau personol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a drefnir, byddwn yn eich cefnogi'n frwd i barhau gyda'ch diddordebau personol eich hun. Felly p'un ai gwylio adar, garddio neu wneud posau yw eich diléit, gallwch barhau i fwynhau eich hobis a'ch hoff ddiddordebau yn eich Cartref newydd.

### Arhosiad byr

Gallwch aros am hyd at bythefnos mewn Cartref RMBI arall, os oes lle ar gael; cofiwch drefnu hyn ymlaen llaw. Gall arhosiad byr roi newid byd i chi a chyfle i gyfarfod pobl eraill. Gallai fod yn gyfle i gael gwyliau byr wrth yr arfordir neu wrth ymyl ffrind neu berthynas y byddech yn hoffi mynd i'w gweld. Dylech drafod hyn gyda'ch Gweithiwr Allweddol neu aelod o'r Tîm Gweinyddol.

# Ehangu'r croeso



## Y Gymdeithas Cyfeillion

Cefnogir eich Cartref gan grŵp o wirfoddolwyr Masonaidd o Gyfrinfeydd lleol o'r enw'r Gymdeithas Cyfeillion.

Mae'r Gymdeithas Cyfeillion yn gweithio mewn nifer o ffyrdd i helpu i wella ansawdd eich bywyd. Mae'r grŵp yn trefnu gweithgareddau codi arian, tripiau ac adloniant i breswylwyr, yn talu am gerbydau ac eitemau ychwanegol i'r Cartref a'r gerddi.

Mae'r Gymdeithas Cyfeillion hefyd yn cynnig cyfeillgarwch i breswylwyr. Mae aelodau'r grŵp yn ymweld â'r Cartref yn rheolaidd i dreulio amser gyda'r preswylwyr. Efallai fod ganddynt siop ar y safle, neu gallent gynnal bore coffi rheolaidd – manylion yn y Rhaglen Weithgareddau. Maen nhw bob amser yn barod i gael sgwrs gyfeillgar a helpu hefyd gyda'ch gweithgareddau neu ddiddordebau personol.

Mae'r Gymdeithas Cyfeillion yn estyn croeso cynnes i wirfoddolwyr newydd. Os hoffech chi neu aelod o'ch teulu gymryd rhan, siaradwch â Rheolwr y Cartref fydd yn eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun o'r Gymdeithas Cyfeillion.


## Y Gyfrinfa Cymydog Da

Os yw dynion am barhau i fod yn rhan o'r Seiri Rhyddion a / neu am fynychu cyfarfodydd Cyfrinfa, ond yn methu â theithio i'w Cyfrinfa arferol, gwahoddir hwynt i ymuno â'r Gyfrinfa Cymydog Da.

Am danysgrifiad blynyddol bach, gallwch barhau i gyfarfod yn rheolaidd â Brodyr eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau Masonaidd.

Gallai fod gan eich Cartref hefyd gysylltiad â Chyfrinfa leol i chi gael mynd i'w cyfarfodydd.






"Mae'r Gymdeithas Cyfeillion mor barod i helpu gyda darparu cyfleusterau hamdden ac adloniant i'r preswylwyr – rydyn ni'n edrych ymlaen at iddynt ddod atom."